| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Mai 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Hamdden, Ieuenctid, Twristiaeth a Datblygu Gwledig/Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth Sir Ddinbych** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru Cam 2 Cais am Dystiolaeth** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Ar 25 Medi 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol adolygiad annibynnol ar ddiben a llywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru, y tri Pharc Cenedlaethol a'r pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Mae un o'r 5 AHNE, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn rhychwantu ffiniau sirol Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb byr o Gam 1 o'r Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ac mae'n egluro pa dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer Cam 2. Mae'r ddwy eitem o wybodaeth yn Atodiad 1.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno ymateb drafft (Atodiad 2) i Gam 2 gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer aelodau'r Pwyllgor i'w drafod a'i fireinio.

Os gall y Pwyllgor ddod i gytundeb bydd yr ymateb terfynol wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Adolygu ar ôl awdurdodiad gan Aelod Arweiniol/Cabinet.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I geisio barn yr Aelodau ar ymateb drafft CSDd (Atodiad 2) i'r cwestiynau a godwyd yng Ngham 2 yr Adolygiad o Ardaloedd Dynodedig yng Nghymru. Yna, mae angen penderfyniad ar p'un ai i gytuno os gall yr ymateb drafft wedi'i fireinio gael ei drosglwyddo i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth fel ymateb swyddogol Cyngor Sir Ddinbych i'r Adolygiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I drafod ac argymell cymeradwyo ymateb swyddogol Cyngor Sir Ddinbych i adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru Cam 2 cais am dystiolaeth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Ym mis Medi 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol adolygiad annibynnol ar ddiben a llywodraethu tirweddau dynodedig yng Nghymru. Mae'r adolygiad dau gam hwn wedi archwilio'r dynodiadau eu hunain i ddechrau, yn edrych ar eu dibenion a rhinweddau dosbarthu tirweddau dynodedig Cymru dan un math o ddynodiad.

Amlinellir argymhellion cam 1 yn Atodiad 1 o dan yr adran a labelir Atodiad 1. Mae'r prif argymhellion yn cynnwys;

- Ni ddylai fod unrhyw ddynodiad sengl;
- Ceir un set o ddibenion statudol a dyletswydd statudol sengl cysylltiedig ar gyfer y ddau ddynodiad.
- Newid yr enw "Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol" (AHNE) i "Dirweddau Cenedlaethol Cymru"
- Dylai fod tri diben statudol cysylltiedig ar gyfer y Parciau Cenedlaethol a'r Tirweddau Cenedlaethol.
  Sef:
  “Gwarchod a gwella tirwedd unigryw a rhinweddau morlun yr ardal," (*Diben Cadwraeth)*
  “Hybu lles corfforol a meddyliol drwy fwynhad a dealltwriaeth o dirlun yr ardal," (*Diben Lles Dynol*)
  “Hyrwyddo mathau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol ac economaidd a datblygu cymunedol sy'n cefnogi treftadaeth ddiwylliannol yr ardal." *(Pwrpas Rheoli Adnoddau Cynaliadwy)*
- Un ddyletswydd statudol newydd sy'n cael gwared ar y rhagddodiaid "rhoi sylw i" gwan yn y dyletswyddau presennol ar gyrff cyhoeddus perthnasol, a’u disodli gydag un ddyletswydd glir: “I gyfrannu at gyflawni tri Diben y Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol."

Bydd adroddiad Cam 1 nawr yn darparu sail ar gyfer symud ymlaen i Gam 2 yr adolygiad fel y nodir yn y cylch gorchwyl gwreiddiol. Mae hyn yn cynnwys:

- Adolygu trefniadau llywodraethu a rheoli tirweddau dynodedig;
- Adolygu ac archwilio sut fyddai unrhyw gorff/gyrff llywodraethu yn hyrwyddo cydweithredu a chydweithio ac osgoi dyblygu orau; ac
- Adolygu ac archwilio'r ffordd orau i unrhyw gorff llywodraethu atgyfnerthu atebolrwydd lleol a gwneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Mae gan y ddau ddynodiad (Parciau Cenedlaethol ac AHNE) drefniadau llywodraethu gwahanol ar hyn o bryd.

Arweiniodd Deddf yr Amgylchedd 1995 at greu Awdurdodau Parc Cenedlaethol annibynnol ar gyfer pob un o'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae pob Parc yn cael ei lywodraethu gan fwrdd sy'n cynnwys dwy ran o dair o gynghorwyr lleol a benodir gan awdurdodau lleol cyfansoddol, ac un rhan o dair a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae eu gwariant refeniw cymeradwy yn cael ei osod bob blwyddyn gan Weinidogion Cymru, ac mae'r awdurdodau yn codi ar eu hawdurdodau cyfansoddol ar gyfer gweddill eu cyllideb weithredol. Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yw’r awdurdodau cynllunio ar gyfer eu hardaloedd.

Mae’r rhan fwyaf o’r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yng Nghymru yn cael eu goruchwylio gan Gyd-bwyllgor Ymgynghorol, gydag unrhyw wasanaethau wedi'u gwreiddio o fewn awdurdodau lleol cyfansoddol. Fodd bynnag, nid oes dim cyllid canolog. Mae’r CBY yn ymgynghorai statudol ar geisiadau cynllunio ar gyfer yr ardal.

Yn ddiweddar mae AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy wedi symud i ffwrdd oddi wrth y model hwn. Mae Cyd-bwyllgor wedi'i ffurfio, yn cynnwys 2 aelod cabinet/gweithredol o bob un o'r Awdurdodau Lleol. Islaw hyn bydd Partneriaeth yn cael ei ffurfio, yn cynnwys nifer o fudd-ddeiliaid sydd â diddordeb yn yr AHNE. Ystyrir hyn yn fodel cryfach ar gyfer hyrwyddo cydweithredu, gwneud penderfyniadau gwell a gwella atebolrwydd lleol.

Mae’r Adolygiad wedi bod yn benodol iawn yn ei ofynion a lluniwyd cyfres o gwestiynau i helpu i gasglu tystiolaeth. Mae Cam 2 yn gofyn y canlynol;

**1. Beth yw'r trefniadau llywodraethu mwyaf effeithiol ar gyfer tirweddau dynodedig sy'n eu galluogi i arwain a bodloni canlyniadau uchelgeisiol o fewn ac ar gyfer Cymru?**

Er mwyn ateb y cwestiwn hwn efallai y byddwch am ystyried ac ymateb i’r cwestiynau ychwanegol, cysylltiedig hyn:

**2. Yng ngoleuni adroddiad ac argymhellion Cam Un yr Adolygiad a datganiad ysgrifenedig y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (dyddiedig 4 Mawrth) beth yw eich gweledigaeth ac uchelgais ar gyfer cyfeiriad tirweddau dynodedig Cymru yn y tymor canolig i'r tymor hir?**

**3. O safbwynt llywodraethu, pa ffactorau sy’n atal a/neu yn debygol o atal tirweddau dynodedig o wireddu gweledigaeth ac uchelgais a nodwyd gennych mewn ymateb i gwestiwn 2?**

**4. O safbwynt llywodraethu, pa ffactorau fydd yn caniatáu i dirweddau dynodedig wireddu gweledigaeth ac uchelgais a nodwyd gennych mewn ymateb i gwestiwn 2?**

**5. A oes tirwedd ddynodedig/modelau llywodraethu ardal warchodedig /dulliau rydych am dynnu sylw at yr Adolygiad?**

Mae ymateb drafft i'r cwestiynau hyn wedi'u paratoi i’r Pwyllgor eu trafod a nodir yn Atodiad 2.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae gan yr AHNE hanes profedig o wella cymunedau lleol a gwella'r economi leol. Bydd gwella llywodraethu'r AHNE yn cyfrannu at redeg y Cyngor yn effeithlon a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni fydd ymateb i'r adolygiad yn arwain at unrhyw gostau nac yn effeithio ar wasanaethau eraill.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Gweler Atodiad 3 ynghlwm.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Dyma'r adroddiad cyntaf am yr adolygiad hwn i fynd i Bwyllgor Cyngor Sir Ddinbych. Bydd yr adolygiad hefyd yn cael ei ystyried gan Gyd-bwyllgor AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ddiweddarach yn y mis.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mewn ymateb i'r adolygiad hwn nid oes unrhyw effaith ar gyllidebau neu oblygiadau o natur ariannol.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amh.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ac Erthyglau 6.3.2(c) (d) a 6.3.4(ch) yn nodi pwerau archwilio ar y mater hwn.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwasanaethau Treftadaeth a Chefn Gwlad
Ffôn: 01352 811029